Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | | |
|---|---|---|
| COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS POLICE AND CRIME COMMISSIONER | **Cyfarfod:** **Cyd-bwyllgor Archwilio**<br>**Lleoliad:** **Pencadlys yr Heddlu**<br>**Dyddiad:** **7 Mawrth 2019**<br>**Amser:** **10:00 – 13:00** | Heddlu•Police DYFED-POWYS<br>Diogelu ein Cymuned – Safeguarding our Community |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Mr Malcolm MacDonald (MM)<br>Mr Martin Evans (ME)<br>Mr Alasdair Kenwright (AMSK) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Mr Mark Collins, Prif Gwnstabl (PG)<br>Mrs Carys Morgans, Pennaeth Staff (PS)<br>Ms Beverley Peatling, Prif Swyddog Ariannol (PSA)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Mr Ian Williams, Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol (IW)<br>Mr Jonathan Maddock (TIAA), (JM)<br>Miss Caryl Bond, Swyddog Sicrhau Ansawdd<br>Mr James Tansley, Myfyriwr SCHTh<br>Mr Mark Pickering, Arlingclose (MP) |
| **Ymddiheuriadau:** | Ms Vicky Davies, TIAA (VD)<br>Mr Jason Blewitt, Swyddfa Archwilio Cymru (JB)<br>Mr Andre Morgan (AM) |
| **Datganiadau o Fuddiant:** | Dim. |

| | CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 30 TACHWEDD 2018 | | |
|---|---|---|---|
| Rhif y Cam Gweithredu | Crynodeb o'r Cam Gweithredu | I'w symud yn ei flaen gan | Rhif y Cam Gweithredu |
| **A74 2017/18** | **Cywiro'r camgymeriad teipio ar waelod tudalen 11 fel y trafodwyd.** | **SCHTh** | **Cwblhawyd** |
| **A74 2017/18** | **Rhannu Llythyr Archwilio Blynyddol 2017/18 drwy e-bost.** | **SCHTh** | **Cwblhawyd** |
| **A76 2017/18** | **Derbyn diweddariad gan yr heddlu mewn perthynas â dyddiad a ffordd ymlaen ar gyfer pwynt 18 o'r adroddiad Adolygiad Dilynol - Interim.** | **Yr Heddlu** | **Cwblhawyd** |
| **A77 2017/18** | **Ychwanegu'r perygl Gwasanaethau Fforensig i'r gofrestr Peryglon Corfforaethol.** | **CC** | **Cwblhawyd** |
| **A79 2017/18** | **Cyhoeddi hysbyseb agored sy'n hysbysebu'r cyfle i ddod yn aelod o'r Cyd-bwyllgor Archwilio.** | **SCHTh** | **Cwblhawyd** |
| **A79 2017/18** | **Bydd y PSA yn sicrhau bod y Cytundeb Archwilio Mewnol yn mynd rhagddo yn ôl y bwriad.** | **PSA** | **Cwblhawyd** |

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan MM.

Rhoddwyd ymddiheuriadau ar ran Andre Morgan, Jason Blewitt a Vicky Davies.

**A80 2017/18 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2018 a Materion yn Codi**

Nododd MM fod gwall teipio ar waelod tudalen 10, a bod angen newid 'ailbrisiad' i 'gwerthusiad'.

**Cam Gweithredu A80: Cywiro'r gwall teipio ar dudalen 10 o'r cofnodion fel y trafodwyd.**

Cadarnhaodd y PG fod yr ôl-groniad fetio a drafodwyd o fewn y cyfarfod diwethaf wedi'i glirio o fewn targed AHEM, sef 31 Rhagfyr 2018. Esboniodd y PG eu bod nhw wedi ad-drefnu'r adran yn ddiweddar ac yn disgwyl i aelodau staff ychwanegol gychwyn. Gofynnodd MM am i ddiolch gael ei roi i'r unigolion perthnasol am eu gwaith caled a'u cynnydd.

O ran yr ymateb gan Gyngor Sir Caerfyrddin mewn perthynas â'r Adolygiad o Ddyledwyr 2017/18, nodwyd fod hyn yn cael ei ddatblygu a'i symud ymlaen yn awr.

Trafodwyd y camau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf. Mae camau gweithredu A74, A76, A77, ac A79 wedi'u cwblhau.

Cam Gweithredu A76; Esboniodd y CC fod hyn yn ymwneud â dilyniant i archwiliad ac argymhellion blaenorol i ddogfennu prosesau a ddefnyddir gan yr adran Dysgu a Datblygu i ofyn am hyfforddiant a'i archebu, cadw cofnodion ac ati. Esboniodd y CC fod map proses wedi'i rannu, felly mae'r cam gweithredu hwn bellach wedi'i gwblhau.

O ran camau gweithredu cyfredol, cafwyd trafodaeth mewn perthynas ag A38, sef adolygu cylch gorchwyl y Cyd-bwyllgor Archwilio. Cynigwyd y dylid adolygu'r cylch gorchwyl yn ystod seminar mis Mehefin. Cytunodd aelodau'r Pwyllgor â'r cynnig hwn.

**Penderfyniad A80: Yn amodol ar y diwygiad a nodwyd, derbyniwyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2018 yn gofnod cywir o'r cyfarfod hwnnw.**

**A81 Llythyr Archwilio blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2017/18:**

Cyhoeddwyd y llythyr hwn ar 30 Tachwedd. Roedd y CC eisiau nodi bod peth o'r wybodaeth gyd-destunol am y gyllideb yn dyddio nôl i fis Tachwedd a bod newidiadau wedi'u gwneud. Bellach, mae gwybodaeth o fewn y llythyr wedi'i disodli.

**A82 Cynllun Archwilio Drafft Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2019/20**

Esboniodd MM mai prif bwrpas y cynllun hwn yw nodi'r gwaith arfaethedig ar gyfer 2019/20. Nodwedd amlwg o'r cynllun yw ystyried y strwythur ffioedd.

Mewn perthynas â phwynt 21, nododd ME fod cynnydd bychan wedi'i ychwanegu at y cyfraddau ffi (llai nag 1%), yn unol â'r cynllun ffioedd cymeradwy ar gyfer 2018-19. Nid yw hyn yn rhoi unrhyw arwydd o ran faint mwy yw hyn o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Dywedodd MM y gellir bwydo'r cwestiwn hwn yn ôl i Swyddfa Archwilio Cymru.

Hefyd, gyda'r cyfnod llai ar gyfer cau cyfrifon, nododd MM mai'r mater sydd wedi codi yn y gorffennol yw p'un ai a oes gan Swyddfa Archwilio Cymru ddigon o adnoddau.

Cafwyd trafodaeth hefyd mewn perthynas â sicrhau bod heddluoedd Cymru'n derbyn digon o gefnogaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru. Nododd IW hefyd mai ei amcan ef yw gwneud y broses archwilio mor effeithiol â phosibl, a bydd yn cael trafodaethau gyda Swyddfa Archwilio Cymru er mwyn cyflawni hyn. Dywedodd y PSA ei bod hi a'r CC yn cael cyfarfodydd chwarterol gyda Swyddfa Archwilio Cymru, a bod hyn yn sicr yn rhywbeth y gellir ei drafod bryd hynny.

**Cam Gweithredu A82: Bwydo'r cwestiynau a'r pwyntiau sydd wedi codi drwy ddarllen Cynllun Archwilio Drafft Swyddfa Archwilio Cymru yn ôl i Swyddfa Archwilio Cymru.**

Nododd MM hefyd nad oeddent wedi derbyn dogfen sy'n nodi eu strwythur ffioedd eleni. Dywedodd y PSA fod Swyddfa Archwilio Cymru'n cynnal adolygiad strwythurol ar hyn o bryd.

## A83 2018/19: Adroddiad Cynnydd (SICA)

Cyflwynodd JM yr adroddiad SICA, sy'n rhoi diweddariad i'r pwyllgor ar gynnydd eu gwaith archwilio mewnol hyd at 26 Chwefror 2019. Nodwyd eu bod nhw wedi cwblhau wyth adolygiad ers yr adroddiad diwethaf, gan gynnwys; System Sicrhau Ansawdd - gwiriadau cydymffurfiaeth Chwarter 3, Rheoli Trysorlys, Asedau Sefydlog, Grantiau'r Comisiynydd, Credydwyr a Llywodraethu – Rheoli Perfformiad. Esboniwyd fod yr adroddiad Rheoli Fflyd a'r adroddiad Rheoli Adnoddau wedi'u cyflwyno yng nghyfarfod diwethaf y Cyd-bwyllgor Archwilio, ond nid oeddent yn yr adroddiad SICA diwethaf oherwydd y dyddiad cwblhau ac amseru. Roedd Atodiad A yn dangos cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun Archwilio Mewnol. Dywedodd JM fod pob adolygiad wedi'i drefnu nawr, a byddant yn cael eu cwblhau erbyn diwedd mis Mawrth fel y cynlluniwyd.

Cododd MM y pwynt y byddai angen i rai datganiadau fod ar gael i'w cynnwys yn y Cyfrifon Blynyddol cyn Adolygiad Blynyddol yr Archwilwyr Mewnol. Nododd JM hyn a dywedodd y byddai'n ymgysylltu â Kerrie Phillips (KP).

Holodd MM hefyd pa un ai a fyddai'r newidiadau i'r Gyfraith Slipiau Cyflog ar gyfer mis Ebrill 2019 yn effeithio ar yr heddlu. Dywedodd y CC ei fod wrthi'n edrych ar hyn, ond ei fod yn hyderus y byddai modd iddynt fodloni'r gofynion, gydag ychydig o waith. Dywedodd JM y gallai'r dyddiad ar gyfer hyn fod wedi'i ohirio. Bydd JM yn ymchwilio i hyn ac yn cysylltu â'r CC.

## A84 Ystyried y Strategaeth Rheoli Trysorlys a derbyn cyflwyniad gan Arlingclose

Cynghorodd y PSA yr aelodau bod angen i'r Comisiynydd gymeradwyo Strategaeth Rheoli Trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Yn ogystal â hyn, mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar Fuddsoddiadau Awdurdod Lleol hefyd yn mynnu bod y Comisiynydd yn cymeradwyo Strategaeth Fuddsoddi.

Er mwyn hwyluso ystyriaeth Aelodau o’r Strategaeth Rheoli Trysorlys, rhoddodd MP o Arlingclose, Ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys, gyflwyniad cynhwysfawr ar y sefyllfa economaidd gyfredol, amgylchiadau’r farchnad a mydryddiaeth perfformiad rheoli trysorlys, ac esboniodd yr elfennau allweddol sydd angen eu hystyried ar gyfer y Strategaeth.

**Cam Gweithredu 84: SCHTh i rannu sleidiau cyflwyniad Arlingclose ymysg yr aelodau.**

Diolchodd MM a’r PSA i MP am ei gyflwyniad ac am waith Arlingclose. Ailadroddodd yr aelodau Pwyllgor ei fod yn ddefnyddiol iawn derbyn y cyflwyniadau.

Holodd y CHTh pa un ai a ddylai’r Heddlu a SCHTh ail-asesu’r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd. Dywedodd y PSA ei bod yn derbyn diweddariadau dyddiol, newyddion a chyngor mewn perthynas â datblygiadau cenedlaethol ar y portffolio buddsoddi. Hefyd, dywedodd y CC bod y polisi’n caniatáu’r hyblygrwydd i ymateb i newidiadau o fewn y farchnad, gan ddilyn cyngor Arlingclose, ac ar yr un pryd, ystyried eu sefyllfa leol.

Holodd y CHTh pa un ai a oedd unrhyw ffordd y gallai’r Heddlu ddysgu wrth sefydliadau eraill lle mae risg dal yn isel ond mae elw’n uwch. Dywedodd y PSA fod angen iddynt weithio ar eu rhagolygon cyfalaf a’u defnydd o gronfeydd wrth gefn; bydd hyn yn helpu i hysbysu rhai o’r penderfyniadau buddsoddi. Nododd IW ei fod wedi holi MP sut oedd y sefydliad â’r elw mwyaf wedi cyflawni hyn o’r blaen, ac esboniwyd fod hyn wedi’i gyflawni drwy fuddsoddi mewn eiddo/safleoedd.

Dywedodd MM ei bod hi’n gysur gwybod bod yr Heddlu’n edrych ar y cymaryddion a bod adroddiad adolygu chwe misol.

Esboniodd y PSA ei fod wedi’i benderfynu, yn dilyn trafodaethau, y gallai creu dogfen sy’n cynnwys y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a’r Strategaeth Rheoli Trysorlys fod yn gam cadarnhaol wrth symud ymlaen. Bydd hyn, gobeithio, yn osgoi dyblygu, gan wneud y dogfennau’n fwy dealladwy i unigolion sy’n eu darllen.

Holodd y CHTh pa un ai a oes unrhyw gyfyngiadau ar eu gweithgareddau buddsoddi fel sefydliad, o ystyried mai gwasanaeth heddlu ydyw. Dywedodd y PSA bod rhai cyfyngiadau dal yn bodoli, ond bod rhywfaint o waith wedi’i gyflawni yn ddiweddar mewn perthynas â buddsoddiadau a chynhyrchu incwm.

**Penderfyniad 84: Argymhellodd y Pwyllgor y Strategaeth Rheoli Trysorlys a’r Polisi Buddsoddi i’r CHTh ar gyfer cymeradwyaeth.**

Nododd y CHTh a’r PG ill dau y gallai fod yn ddefnyddiol cael cyflwyniad Arlingclose fel rhan o seminar cyllid mis Rhagfyr yn y dyfodol gan y byddai hyn yn ddefnyddiol i’w rannu â’r rhai sy’n bresennol, gan gynnwys aelodau o’r Panel Heddlu a Throseddu. Dywedodd y PSA y byddai derbyn y cyflwyniad o fewn y seminar cyllid o bosibl yn adeg well gan y gallai hyn helpu i lunio eu cynllun ariannol tymor canolig. Cytunodd y Pwyllgor â’r cynnig hwn, a nodwyd y byddai hyn yn caniatáu iddynt ganolbwyntio ar Strategaeth Rheoli Trysorlys Dyfed-Powys o fewn eu cyfarfodydd ym mis Mawrth, a hwythau eisoes wedi derbyn gwybodaeth am yr hyn sydd wedi dylanwadu ar gynigion.

**Cam Gweithredu 84: Gwahodd Arlingclose i roi cyflwyniad yn y seminar cyllid fis Rhagfyr.**

Mewn perthynas â chynhyrchu incwm, dywedodd y PSA fod darn o waith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ynghylch pwerau cymhwysedd, ac y byddai'n ymchwilio ymhellach i hyn er mwyn deall mwy am gyfyngiadau a risg.

**A85 Cynllun Archwilio Mewnol Drafft**

Esboniodd y CC fod yr adroddiad hwn wedi deillio o drafodaeth gyda TIAA mewn perthynas â'u cytundeb newydd, sy'n cychwyn ym mis Mehefin 2019. Nodwyd y byddant ar ei hôl hi ar gyfer y flwyddyn os nad oes archwiliadau'n cael eu cynnal yn ystod chwarter 1. Mae'r papur hwn yn nodi rhai archwiliadau a oedd yn y cynllun blaenorol y gallant fwrw ymlaen â nhw yn y chwarter cyntaf. Esboniwyd y byddai angen cyflwyno cynllun archwilio newydd o gael cytundeb newydd. Y cynnig o ran yr archwiliadau i'w cynnal yn ystod y chwarter cyntaf yw; Prosiectau cydweithio – canolbwyntio ar lywodraethu cydweithio yn gyffredinol, rheolaeth AD – hyfforddiant a recriwtio, Adolygiad o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a Sicrwydd Data.

Holodd MM pa un ai a fyddai angen estyn y cytundeb cyfredol, sy'n dod i ben ym mis Mawrth, gan fod y cytundeb newydd yn cychwyn ym mis Mehefin. Cadarnhaodd JM eu bod nhw wedi derbyn llythyr swyddogol yn cadarnhau eu bod wedi derbyn y cytundeb gyda'r pedwar heddlu yng Nghymru ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Bydd y cytundeb newydd yn effeithiol o 1 Ebrill, felly ni fydd angen estyniad.

**Penderfyniad A85: Roedd yr aelodau'n hapus i argymell y rhestr archwilio o fewn y cynllun archwilio mewnol drafft gydag elfen o hyblygrwydd ar gyfer y PG a'r CHTh i gael y trafodaethau perthnasol gyda'r tîm cyllid i gymeradwyo'r rhestr arfaethedig.**

**A86 2018/19: Adroddiadau'r archwilwyr mewnol**

Mae chwe adroddiad wedi'u cwblhau ers y cyfarfod pwyllgor diwethaf, felly maen nhw wedi'u dwyn i sylw'r pwyllgor er ystyriaeth.

**a) Adolygiad Cydymffurfiaeth o'r Gweithdrefnau ar gyfer y System Rheoli Ansawdd (chwarter 3)**

Ni roddwyd asesiad sicrwydd cyffredinol gan mai adolygiad gweithredol ydoedd yn hytrach nag adolygiad sicrwydd. Y casgliad cyffredinol oedd bod yr archwiliadau yr ymgymerwyd â nhw o fewn yr Uned Cefnogaeth Wyddonol a'r Uned Cyfathrebu Digidol a Seiberdroseddu yn cydymffurfio â gofyniadau'r Sefydliad Safoni Rhyngwladol (ISO) yn gyffredinol. Nodwyd ac adroddwyd am nifer bychan o gamau cywirol mewn cydymffurfiaeth â methodoleg adrodd y System Rheoli Ansawdd, ac maen nhw wedi'u symud yn eu blaen.

Nododd y CHTh fod yr Uned Cefnogaeth Wyddonol ar flaen yr ardystiad ISO yn genedlaethol, er gwybodaeth. Ailadroddodd y PG mai Heddlu Dyfed-Powys yw'r unig heddlu sydd ag adran olion bysedd achrededig yn genedlaethol.

### b) Adolygiad Cydymffurfiaeth o Reoli Trysorlys

Canlyniad: Sicrwydd Sylweddol heb unrhyw argymhellion. Nododd JM fod yr adolygiad hwn wedi'i gynnal tair blynedd yn olynol ac wedi derbyn sicrwydd sylweddol heb unrhyw argymhellion o gwbl neu gydag argymhellion lefel is pob blwyddyn. Mae hyn yn dangos cysondeb ymagwedd o ran rheoli trysorlys o fewn yr Heddlu.

### c) Adolygiad Sicrwydd o Asedau Sefydlog

Canlyniad: Sicrwydd Rhesymol gyda dau argymhelliad blaenoriaeth 2 ac un argymhelliad blaenoriaeth 3. Roedd yr adolygiad yn ystyried canfod asedau sydd angen eu cofnodi yn y gofrestr asedau; canfod, lleoli a chofnodi asedau, rhestrenni a gwaredu asedau. Nid oedd cwmpas yr adolygiad yn cynnwys ystyriaeth o'r prynu, polisïau dibrisiad na threfniadau yswiriant. Esboniodd JM fod y ddau argymhelliad blaenoriaeth 2 wedi'u derbyn. Roedd yr argymhellion yn cynnwys; trafodion wedi'u codio i godau cyfalaf i'w hadolygu ar sail chwarterol gan y Cyfrifydd Cynorthwyol mewn cydymffurfiaeth â'r Gweithdrefnau Ariannol ar gyfer Rheoli Asedau Cyfalaf, ac roedd yr ail mewn perthynas â cherbyd a oedd tu hwnt i'w drwsio ac roedd angen diwygio gwerth net y cerbyd â'r gofrestr asedau sefydlog.

Nododd AK ei fod amser hir i fynd i'r afael â phwynt 11.36 o'r adroddiad. Mae hyn mewn perthynas â gweithredoedd tir dau eiddo sydd yn eisiau. Mae'r Heddlu wrthi'n ceisio'r gweithredoedd tir gan y gofrestrfa tir, sydd wedi'i hysbysu, ac mae'r Heddlu wedi mynd ar ei hôl mewn perthynas â'r mater. Trafodwyd y ffaith bod y mater yn cael ei drin, ond bod y broses yn un hir.

### ch) Adolygiad Sicrwydd o Grantiau'r Comisiynydd

Canlyniad: Sicrwydd Rhesymol gydag un argymhelliad blaenoriaeth 2. Ystyriodd yr adolygiad y trefniadau ar gyfer asesu, gwobrwyo a'r broses monitro cydymffurfiaeth. Canfu'r un argymhelliad y bu materion parhaus â gallu Goleudy i gynhyrchu gwybodaeth rheoli perfformiad ddibynadwy. Mae angen mynd i'r afael â hyn er mwyn caniatáu i ganlyniadau'r gwasanaeth gael eu hasesu. Nodwyd fod angen diwygio eu meddalwedd a'u systemau er mwyn caniatáu i ddata ac ystadegau gael eu casglu'n hawdd. Mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn cyflawni hyn.

### d) Adolygiad Sicrwydd o Gredydwyr

Canlyniad: Sicrwydd Rhesymol gydag un argymhelliad blaenoriaeth 2 ac un argymhelliad blaenoriaeth 3. Canfu nad oedd derbynebau i gefnogi peth o wariant y daliwr carden ym mis Ebrill, mis Mai, mis Mehefin, mis Gorffennaf a mis Awst 2018. Ers hynny, mae'r cerdyn wedi'i atal hyd nes y bydd dogfennau perthnasol wedi'u sganio fel tystiolaeth. Mae'r ail argymhelliad yn nodi bod angen adolygu a diweddaru pob ffurflen DD01; mae hyn wedi'i gytuno a'i gwblhau erbyn hyn.

Mynegodd MM bryder mewn perthynas â phwynt 11.36 o fewn yr adroddiad mai'r nifer o ddyddiad a gymerir ar gyfartaledd i dalu anfoneb gan gwmni Nwy Prydain yw 1,577. Esboniodd IW fod hyn o ganlyniad i oedi o ran derbyn yr anfonebau. Mae cyfarfodydd yn

cael eu cynnal er mwyn gweld sut y gellir rhoi prosesau mewn grym i sicrhau bod anfonebau'n cael eu hanfon a'u talu'n fwy amserol.

**dd) Adolygiad Sicrwydd o Lywodraethu – Rheoli Perfformiad**

Canlyniad: Sicrwydd Sylweddol gyda 3 argymhelliad blaenoriaeth 3. Roedd yr argymhellion yn cynnwys adolygu cylch gorchwyl y Bwrdd Plismona a Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu, cysylltu neu groesgyfeirio'r holl ddata perfformiad perthnasol a gyflwynir i'r Bwrdd Perfformiad a Chanlyniadau ag un o flaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu, a bod cofnodion y Bwrdd Plismona a Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu'n cael eu cyhoeddi ar wefan SCHTh mewn modd mwy amserol.

Dywedodd y PS eu bod wrthi'n edrych ar y cylch gorchwyl fel rhan o'r adolygiad llywodraethu a bod yr argymhelliad o ran y Bwrdd Perfformiad a Chanlyniadau'n cael ei symud ymlaen, gyda chyfarfodydd y Bwrdd Perfformiad a Chanlyniadau'n cyfuno ymagwedd thematig â materion sy'n deillio'n uniongyrchol o flaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu o fis Ebrill 2019. Hefyd, nododd y PS fod prosesau wedi'u rhoi mewn grym ar gyfer helpu i sicrhau bod cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Plismona a Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu'n cael eu cyhoeddi ar-lein yn rheolaidd.

Gadawodd y PG y cyfarfod.

**e) Cymhariaeth o Safonau'r Gymraeg ar gyfer y Pedwar Heddlu yng Nghymru**

Esboniodd JM mai casgliad yw'r ddogfen hon o ganfyddiadau archwiliadau mewnol o adolygiadau o Safonau'r Gymraeg ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabliaid y pedwar heddlu yng Nghymru, yn unol â chais gan y Pwyllgor mewn cyfarfod blaenorol, ac fe'i darperir er gwybodaeth yn unig. Dywedodd JM wrth y grŵp fod gan rai ardaloedd adroddiad ar y cyd ar yr iaith Gymraeg ar gyfer yr Heddlu a SCHTh, a bod rhai wedi dewis cael adroddiadau ar wahân.

Holodd MM pam fod gan yr heddluoedd nifer gwahanol o safonau statudol o ran Safonau'r Gymraeg. Esboniodd y PS fod nifer y safonau o fewn pob sefydliad yn amrywio, ac mai Comisiynydd y Gymraeg sy'n penderfynu arnynt. Holodd MM ynghylch pryder blaenorol ynglŷn â'r defnydd o'r Gymraeg yn y ddalfa o ran cyfweliadau a chofnodion dalfa hefyd. Esboniodd y PS fod hyn yn broblem y mae'r pedwar arweinydd iaith yn bwrw ymlaen â hi mewn cydweithrediad â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Dywedodd y CC y byddai'n ddefnyddiol gwybod ble mae pob heddlu arni o ran eu cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Bydd JM yn ystyried hyn ymhellach ac yn edrych i weld pa un ai a oes modd rhannu'r wybodaeth hon â'r Pwyllgor.

**Cam Gweithredu 86: TIAA i weld pa un ai a oes modd iddynt rannu gwybodaeth am sefyllfa pob Heddlu o ran eu cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.**

**A87 2017/2018: Adolygiad Allanol Annibynnol o Safonau Archwilio Mewnol 2017.**

Diolchodd MM i TIAA am ddarparu'r ddogfen. Holodd AK pa un ai a fyddai modd cael rhywfaint o wybodaeth bellach ynglŷn â phwy yw SGH Associates. Dywedodd JM y byddai'n darganfod mwy o wybodaeth am gefndir y partneriaid.

**Cam Gweithredu A87: TIAA i roi gwybodaeth bellach i'r Pwyllgor am gefndir SGH Associates.**

Holodd y CHTh pa mor aml oedd yr adroddiadau hyn yn cael eu cyflawni. Cadarnhaodd JM fod adolygiad allanol o'r archwilwyr mewnol yn cael ei gynnal bob tair blynedd.

## A88 2017/2018: Polisïau Cyfrifyddu Drafft ar gyfer Datganiad o Gyfrifon 2018/19

Esboniodd IW na fu llawer o newidiadau o fersiynau cynt, ac nid oedd newidiadau arfaethedig sylweddol. O ran y safonau y mae'n rhaid iddynt ddilyn ers gweithredu offerynnau ariannol IFRS 9, esboniodd IW nad oedd hyn yn effeithio ar natur eu cyfrifon eleni oherwydd natur y buddsoddiadau mae'r Comisiynydd yn eu dal. Mae gweithredu IFRS 16, y safon gyfrifyddu newydd ar gyfer prydlesi, wedi'i ohirio am flwyddyn arall tan Ebrill 2020.

Holodd MM am y teitl ar dudalen 5. Teimlai bod cynnwys yr adran yn ymwneud â'r ffordd y mae'r dreth gyngor yn cyfrannu at y refeniw blynyddol, a'i fod yn ehangach na'r hyn y mae'r teitl yn awgrymu. Awgrymodd MM y byddai'r teitl 'Cyfraniad Blynyddol at refeniw' yn fwy addas. Hefyd, nododd MM y defnyddir y cymal 'ei fenthyca cyffredinol' o fewn y cynnwys, ac awgrymodd y dylai ddarllen 'y benthyca cyffredinol'. Cytunodd y Pwyllgor â'r pwyntiau hyn.

**Cam Gweithredu 88: Bydd IW yn diwygio'r Polisïau Cyfrifyddu Drafft ar gyfer Datganiad o Gyfrifon 2018/19 yn unol â thrafodaethau.**

**Penderfyniad A88: Yn amodol ar y ddau newid, roedd yr aelodau'n hapus i argymell y Polisïau Cyfrifyddu Drafft ar gyfer Datganiad o Gyfrifon 2018/19 y PG a'r CHTh.**

## A89 2017/18: Adolygiad o'r Gronfa Ailbrisio

Esboniodd y CC fod y ddogfen hon yn ymwneud â gwaith Swyddfa Archwilio Cymru ar y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2017/18. Nodwyd anghydbwysedd yn y Gronfa Ailbrisio a chafodd ei gynnwys fel mater sy'n codi yn yr Adroddiad ISA260. Yn gryno, mae'r anghydbwysedd wedi deillio o ailbrisiadau ac ailddatganiadau mewn perthynas ag eiddo buddsoddi (mastiau ac eiddo a feddiannir gan sefydliadau eraill yn bennaf) wedi ei addasu yn erbyn y Gronfa Ailbrisio yn hytrach na'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr; fel sy'n ofynnol yn ôl y cod. Bydd y cofnodion yn cael eu cywiro yn natganiadau ariannol 2018/19. Esboniodd y CC na fydd hyn yn effeithio ar gronfeydd defnyddiadwy wrth gefn, nac ar werthoedd cario asedau, na'r sefyllfa alldro mewn perthynas â'r Cyfrifon Grŵp a Chyfrifon y Prif Gwnstabl. Bydd angen diwygio'r nodyn Cronfa Ailbrisio hefyd. Dywedodd y CC ei fod wedi ymgysylltu â Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fodlon â'i ymateb i'r canfyddiadau.

**A90 2017/18: Yr Amserlen ar gyfer y Cyfrifon Blynyddol**
Esboniodd IW mai diben y ddogfen hon yw nodi'r amserlen ar gyfer cwblhau Cyfrifon Ariannol 2018/19. Y terfyn amser ar gyfer datganiad o gyfrifon drafft yw 31 Mai, a rhaid cyflwyno fersiwn derfynol wedi'i llofnodi i'r Pwyllgor ar 30 Gorffennaf. Esboniodd IW y byddai drafft yn cael ei ystyried yn fanwl yn seminar cyllid nesaf y Cyd-bwyllgor Archwilio ar 19 Mehefin.

Holodd MM pam fod y drafft yn cael ei gyflwyno i SCHTh ar ôl 31 Mai. Nododd IW fod angen diwygio'r tabl er mwyn sicrhau bod y drafft hefyd yn cael ei gyflwyno i SCHTh ddiwedd Mai.

**Cam Gweithredu A90: IW i ddiwygio amserlen y Cyfrifon Blynyddol er mwyn nodi y dylid anfon y ddogfen ddrafft at SCHTh ddiwedd Mai.**

**A91 2017/18: Y Strategaeth Gyfalaf a Chronfeydd wrth Gefn fel y'i cynhwysir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar gyfer 2019/20 - 2023/24**

Esboniodd y PSA fod y ddogfen hon yn cynnwys y Strategaeth Gyfalaf a Chronfeydd Wrth Gefn, sydd wedi'i chynnwys o fewn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig eleni. Esboniodd y PSA fod Deddf Llywodraeth Leol 1992 yn mynnu bod awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr yn ystyried lefel y cronfeydd wrth gefn sydd angen er mwyn bodloni gwariant amcangyfrifol yn y dyfodol wrth gyfrifo eu gofyniad cyllidebol, ac mae'r Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol yn nodi y dylai'r Comisiynydd sefydlu strategaeth ar gronfeydd wrth gefn. Esboniodd y PSA fod y Swyddfa Gartref wedi rhyddhau rhywfaint o ganllawiau yn 2018 ar Gronfeydd Wrth Gefn yr Heddlu, gan geisio tryloywder uwch er mwyn arddangos defnydd clir o gynlluniau. Mae hyn wedi arwain at Gynllun Ariannol Tymor Canolig manwl, sydd wedi'i gyhoeddi ar wefan SCHTh.

Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn nodi'r egwyddorion sy'n tanategu blaengynllun y Comisiynydd, ac mae'n arf hollbwysig ar gyfer cefnogi cynllunio a gwaith corfforaethol ar draws y ddwy gorfforaeth undyn. Mae buddsoddi cyfalaf strategol yn hollbwysig o ran sicrhau bod y Cynllun Heddlu a Throseddu'n cael ei gyflwyno, cefnogi cyflenwi gwasanaeth, rhesymoli a gwella cyfleusterau a thechnoleg er mwyn gwella cynhyrchiant a pherfformiad. Nododd MM ei fod yn teimlo bod y ddogfen yn ddefnyddiol ac addysgiadol iawn.

Esboniodd y PSA y byddant yn edrych ar gynnwys y Strategaeth Rheoli Trysorlys o fewn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig i greu dogfen hollgynhwysfawr yn y dyfodol er mwyn osgoi dyblygu.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y tabl ar dudalen 31 sy'n dangos y Crynodeb Lleihau Costau ar gyfer 2019/20 i 2012/24. Nododd y CC fod darogan arbedion o arbedion effeithlonrwydd cytundebol yn anodd iawn, fodd bynnag, mae llawer o waith yn digwydd yn genedlaethol o ran caffael y gellir ei ystyried ar gyfer gwybodaeth 2019/20.

Cyfeiriodd y CHTh at lythyr y Swyddfa Gartref mewn perthynas â'r setliadau ariannol sy'n nodi y dylai heddluoedd fedru manylu ar eu harbedion effeithlonrwydd yn glir. Teimlodd y CHTh fod gwelliannau wedi'u gwneud yn y maes hwn, fodd bynnag, mae angen gwella'r ffordd y mae gwaith effeithlonrwydd yn cael ei gofnodi. Byddai'n ddefnyddiol cael cynllun effeithlonrwydd manwl. Dywedodd ME y byddai'n ddefnyddiol dangos a marchnata'r arbedion effeithlonrwydd sydd eisoes wedi'u cyflawni a'r newidiadau effeithlonrwydd yr ymgymerwyd â nhw er mwyn gwella ar arbedion y llynedd.

Dywedodd AK ei fod yn teimlo bod y ddogfen wedi'i llunio'n dda ac yn glir.

**Penderfyniad A91: Roedd yr aelodau'n hapus i argymell y Strategaeth Gyfalaf a Chronfeydd Wrth Gefn sydd wedi'i chynnwys yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig 2019/20 - 2023/24 i'r PG a'r CHTh.**

**A92 Drafft y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y Cyd ar gyfer 2019/20.**

Esboniodd y PS fod darn o waith manwl wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol ar y Cyd ar gyfer 2018/19, ac o'r herwydd, teimlwyd fod ond angen adolygiad ysgafn ar gyfer 2019/20 ac na fyddai angen llawer o newidiadau. Nodwyd newidiadau arfaethedig i'r fframwaith mewn dogfen grynodeb. Roeddent yn ymwneud â newidiadau deddfwriaethol a diweddariadau i faterion penodol yn bennaf.

Nododd MM ei fod yn ddefnyddiol gweld yr holl newidiadau wedi'u rhestru mewn cymhariaeth â llynedd.

Dywedodd y PS fod yr adroddiad yn destun ymgynghoriad ar hyn o bryd, a bod adborth yn cael ei roi i'r Bwrdd Plismona ar gyfer cymeradwyaeth terfynol y CHTh a'r PG yn ddiweddarach y mis hwn. Unwaith y bydd wedi'i gymeradwyo, bydd y fframwaith a dogfen 'cwestiynau cyffredin' i helpu unigolion i lywio'u ffordd drwy'r ddogfen yn cael eu cyhoeddi. Roedd yr aelodau'n fodlon â'r cynnig hwn.

**A93 2017/18: Diweddariad ar AHEM a Datganiad Rheoli'r Heddlu.**

Rhoddodd y CC ddiweddariad ar AHEM, gan esbonio bod adroddiad Effeithlonrwydd PEEL ar gyfer 2017 wedi'i gyhoeddi ar 9 Tachwedd. Derbyniodd yr Heddlu radd 'Angen Gwella', sef yr un radd a roddwyd yn 2016. Fodd bynnag, dylid nodi bod yr adroddiad yn cydnabod bod y sefyllfa'n well o lawer na'r flwyddyn flaenorol, a bod yr Heddlu'n symud tuag at radd 'Da'.

Cyhoeddwyd adroddiad Cyfreithlondeb PEEL 2017 ar 12 Rhagfyr, a derbyniodd yr Heddlu radd 'Da', sy'n well na'r radd 'Angen Gwella' a dderbyniwyd yn 2016.

Ym mis Ebrill 2018, archwiliwyd yr Heddlu yn erbyn Unplygrwydd Data Trosedd, sef adolygiad AHEM o gofnodi troseddau'n briodol a moesegol. Derbyniodd yr Heddlu radd 'Angen Gwella'. Yn seiliedig ar waith maes, amcangyfrifwyd bod 87.8% o droseddau sy'n cael eu hadrodd yn cael eu cofnodi. Er mwyn derbyn gradd 'Da', mae angen cyfradd cydymffurfio o 90%. Mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn cyflawni hyn.

Esboniodd y CC fod Dyfed-Powys yn gweithio ar ei ail ddatganiad ar gyfer rheoli'r heddlu ar hyn o bryd, a bod angen cyflwyno drafft cyntaf erbyn 29 Mawrth a drafft terfynol erbyn 31 Mai. Nododd MM y byddai'n ddefnyddiol cael diweddariad mewn perthynas â Datganiad Rheoli'r Heddlu yn seminar mis Mehefin.

**A94 2017/18: Adroddiad ar Ddiwrnodau Datblygu Cyd-bwyllgorau Archwilio Cymru Gyfan.**

Rhoddodd MM drosolwg byr o'r diwrnod Datblygu ar gyfer aelodau Pwyllgorau Archwilio Cymru ar 19 Chwefror 2019. Cadarnhaodd y PSA y bydd Gogledd Cymru'n arwain ar y Diwrnod Datblygu yn 2020.

**A95 2017/18: Cofnodion y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol – 13 Chwefror 2019**

Edrychodd y Pwyllgor ar y camau gweithredu a gododd yng nghyfarfod diwethaf y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol.

Dywedodd y CC mai'r prif ffocws o fewn y cyfarfod hwn oedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Nodwyd fod y ddau ddatganiad wedi'u cyfuno'n llwyddiannus a bod cynnydd yn cael ei wneud yn effeithiol yn erbyn y matrics cynnydd.

Nododd MM y byddai'n ddefnyddiol iawn cael KP yn seminar mis Mehefin.

**Cam Gweithredu 95: Anfon gwahoddiad ar gyfer seminar mis Mehefin at KP.**

**A96 2017/18: Adroddiad Blynyddol Drafft y Cyd-bwyllgor Archwilio ar gyfer 2018/19**

Diolchodd y PS i JT am ei gymorth o ran paratoi Adroddiad Blynyddol eleni. Dywedodd MM yr hoffai pe bai diwygiad yn cael ei wneud o ran trefn y paragraffau yn ei ragair.

**Cam Gweithredu 96: Diwygio rhagair MM o fewn Adroddiad Blynyddol 2018/19 y Cyd-bwyllgor Archwilio.**

Holodd y PS pa un ai a oedd y Pwyllgor yn cytuno â'r blaenoriaethau sydd wedi'u nodi ar gyfer 2018/19. Ar ôl derbyn y canllawiau ar gyfer symleiddio'r cyfrifon, gofynnodd MM am i flaenoriaeth gael ei ychwanegu er mwyn cefnogi'r canllawiau ochr yn ochr â'u hadolygiad o'r cyfrifon blynyddol a'r datganiadau llywodraethu blynyddol.

Ychwanegodd y PSA mai blaenoriaeth bosibl arall fyddai cynnal adolygiad o ganllawiau newydd CIPFA ar Gyd-bwyllgorau Archwilio.

**Cam Gweithredu 96: Bydd y PS yn rhannu'r Adroddiad Blynyddol eto ar ôl i'r diwygiadau gael eu gwneud.**

**Cam Gweithredu 96: CB i ofyn i aelodau Pwyllgor am ragor o wybodaeth am eu proffil a'u cefndir i'w chyhoeddi ar wefan CHTh.**

**A97 2017/18: Cofrestri Risg yr Heddlu a SCHTh**

Amlinellodd y PS fod yr Aelodau'n derbyn adroddiad cryno chwarterol ar y cofrestri risg sy'n tynnu sylw at beryglon allweddol ac unrhyw newidiadau, fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn derbyn y gofrestr risg lawn yn flynyddol. Cytunodd MM â'r ymagwedd hon, fodd bynnag,

nododd y gallai copi o gofrestr lawn yr heddlu fod yn ddigonol yn y dyfodol, ac ni fyddai angen derbyn cofrestri risg y Bwrdd.

Dygodd MM risg rhif 22 i sylw'r Pwyllgor, gan nodi bod hwn yn risg newydd mewn perthynas ag ansefydlogrwydd y system blwch coch sy'n cofnodi llais ar y system Airwaves 999/101. Rhoddwyd sgôr risg o 20 i hyn, gyda'r system yn methu ar gyfer y slotiau 12 awr ac nid yw'n ymddangos fel pe bai'n cael ei ddatrys gan y gwneuthurwr. Dywedodd AK y byddai'n ddiddorol gweld pa mor aml mae'r broblem yn digwydd a beth mae'r polisi/cytundeb yn dweud am fethiannau a chyfradd ymateb y cwmni i faterion. Dywedodd y CC fod canfod achos y broblem yn boendod ar hyn o bryd.

Tynnodd ME sylw'r Pwyllgor at risg rhif 15. Roedd hyn mewn perthynas â'r perygl o ddod i gysylltiad â chyffuriau Fentanyl a Carfentanyl ac effaith y rheoliadau ar gyfer atal y perygl hwn rhag effeithio ar y prosesau sy'n cefnogi'r Adran Cyfiawnder Troseddol. Nododd ME fod y risg hwn yn cynnwys dau risg hollol wahanol, sef pryder iechyd a diogelwch a risg proses, a holodd pa un ai a ddylid eu cynnwys ar wahân ar y gofrestr.

Holodd ME pam fod nifer o risgiau ar y gofrestr wedi'u hisraddio'n sylweddol. Teimlwyd bod angen cynnwys mwy o fanylion yn y blwch esboniad er mwyn cefnogi'r penderfyniad ar gyfer newid y sgorau risg. Er enghraifft, nodwyd bod rhif 14 ar y gofrestr mewn perthynas â Darpariaeth Tocsicoleg Fforensig Randox wedi syrthio i sgôr risg o 8 o 18. O fewn yr esboniad o'r risg, nododd ME ei fod yn dweud bod hwn yn fater cenedlaethol byw a gofynnodd pam fod israddio'n cael ei ystyried yn briodol. Nododd ME bryderon tebyg gyda risg rhif 9 mewn perthynas â Chyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (roedd y sgôr wedi newid o 20 i 12) a risg rhif 4 (a oedd wedi newid o sgôr o 20 i 8). Trafodwyd y ffaith nad yw disgrifiadau bob amser yn cynnwys esboniad o'r gwaith sydd wedi'i gyflawni, felly nid yw'n adlewyrchu'r newid o ran sgorau.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â ble mae newid sgorau risg yn cael eu trafod a'u cytuno. Dywedwyd wrth aelodau bod y Gofrestr Risg yn cael ei chymeradwyo mewn cyfarfod o Fwrdd Gweithredol yr Heddlu.

O ran cofrestr SCHTh, holodd ME ynghylch risg rhif naw, sy'n ymwneud ag arian sy'n cael ei ddal mewn cronfa ymddiriedolaeth ac Ymddiriedolwyr yn anghytuno ynglŷn â ffordd ymlaen. Mae'r risg hwn wedi'i symud o rif 12 i rif 2 heb unrhyw esboniad ynglŷn â'r camau gweithredu a gymerwyd er mwyn lliniaru risg. Dywedodd y CHTh fod y risg hwn wedi'i liniaru yn awr o ganlyniad i ymddiriedolwyr newydd, felly mae'r sefyllfa wedi newid a gellir dileu'r mater o'r gofrestr. Holodd y PSA ynglŷn â sefyllfa gyfreithiol yr ymddiriedolaeth o ran ei gysylltiad â SCHTh a risg i enw da.

**Cam Gweithredu 97: Y PS i ystyried sefyllfa gyfreithiol yr ymddiriedolaeth o ran ei gysylltiad â SCHTh.**

Nododd JM eu bod nhw'n dewis dau risg o'r rhestr wrth adolygu'r cofrestri risg. Yn ei adolygiad diweddaraf, mae TIAA wedi nodi pryderon tebyg ynghylch sgorio risgiau.

Dywedodd y PSA y byddai'n fuddiol nodi'r pryder hwn fel risg ar y gofrestr o ran sgorio risgiau a'r prosesau llywodraethu sydd mewn grym o ran cymeradwyo newidiadau.

**Cam Gweithredu 97: Ychwanegu risg i'r gofrestr risg o ran y prosesau sydd mewn grym mewn perthynas â sgorio a chymeradwyo newidiadau i sgorau risg.**

**A98 2017/18: Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar gyfer 2018/19.**
Esboniodd y CC fod gwaith wedi'i wneud o ganlyniad i drafodaethau yn y cyfarfod Llywodraethu Corfforaethol ac y byddai'r fersiwn drafft hwn yn mynd mewn i'r cyfrifon drafft yn amodol ar sylwadau ac adborth y Pwyllgor. Bydd angen cwblhau'r fersiwn derfynol ym mis Mehefin.

O ganlyniad i dderbyn canllawiau CIPFA ar gyfer symleiddio'r cyfrifon yn ystod y cam cyn-cyhoeddi, roedd MM yn teimlo y gallai fod yn fwy priodol ystyried y canllawiau hyn wrth adolygu'r cyfrifon flwyddyn nesaf. Gan hynny, dim ond newidiadau mân a geir yn y ddogfen eleni.

Dywedodd y PSA fod angen ystyried sylw Swyddfa Archwilio Cymru o fewn ei llythyr rheoli, yn arbennig yr awgrym y dylai archwilwyr mewnol adolygu eu hunanwerthusiad, a'r pryderon a godwyd bod y ddogfen yn dweud beth mae'n llywodraethu'n prosesu yn hytrach na gwerthuso effeithiolrwydd trefniadau. Yn ystod y diwrnod hyfforddi fis Chwefror, dywedodd CIPFA bod angen cael Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol sy'n amlinellu ein trefniadau, ac yna Datganiad Llywodraethu Blynyddol

sy'n rhoi adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd a meysydd gweithredu.

Holodd MM beth fyddai o fewn cyrraedd o ran yr amserlen, sef diwedd Mai. Dywedodd y PSA y bu trafodaethau gyda CIPFA i weld pa un ai a fyddent yn hapus i hwyluso sesiwn ar arfer da.

Awgrymodd MM fod Aelodau'n ail-edrych ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac yn rhoi adborth ynghylch sut y gellid ysgrifennu'r ddogfen fel gwerthusiad yn hytrach na dogfen ffeithiol.

**Cam Gweithredu 98: Yr Aelodau i edrych ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac awgrymu sut y gellid ei ysgrifennu fel dogfen werthuso.**

**Action 98: Y PSA i weld pa un ai a yw'n bosibl trefnu gweithdy wedi'i hwyluso gyda CIPFA ar Datganiad Llywodraethu Blynyddol.**

Holodd MM am eiriad un o'r meysydd gweithredu ar gyfer 19/20 mewn perthynas â bod yn barod ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE). Holodd pa un ai a fyddai'n fwy priodol newid y geiriad i oblygiadau gadael yr UE, gan y dylai canlyniad y broses fod yn hysbys erbyn y dyddiad cyhoeddi.

**Cam Gweithredu 99: Newid geiriad un o'r meysydd gweithredu ar gyfer 19/20 o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol o fod yn barod ar gyfer gadael yr UE i oblygiadau gadael yr UE.**

**A99 Unrhyw Fusnes Arall**

**a) Recriwtio i'r Cyd-bwyllgor Archwilio**

Esboniodd y PS eu bod nhw wedi derbyn dau fynegiant o ddiddordeb ar gyfer y Pwyllgor. Mae'r ddau ymgeisydd wedi'u gwahodd am gyfweliad ar 9 Ebrill. Erbyn y cyfarfod nesaf, y gobaith yw y bydd gan y Cyd-bwyllgor Archwilio'r nifer llawn o aelodau. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus hefyd yn derbyn gwahoddiad i seminar mis Mehefin.

Nid oedd unrhyw fusnes pellach i’w drafod.

Diolchodd MM i bawb am ddod i’r cyfarfod.

**Daeth y cyfarfod i ben am 13:45awr**

| PENDERFYNIADAU’N CODI O GYFARFOD 7 MAWRTH 2019 | | |
|---|---|---|
| Rhif y Penderfyniad | Crynodeb o’r Penderfyniad | |
| **A80 2017/18** | **Yn amodol ar y diwygiad a nodwyd, derbyniwyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2018 yn gofnod cywir o’r cyfarfod hwnnw.** | **Cwblhawyd** |
| **A84 2017/18** | **Argymhellodd y Pwyllgor y Strategaeth Rheoli Trysorlys a’r Polisi Buddsoddi i’r CHTh ar gyfer cymeradwyaeth.** | **Cwblhawyd** |
| **A85 2017/18** | **Roedd yr aelodau’n hapus i argymell y rhestr archwilio o fewn y cynllun archwilio mewnol drafft gydag elfen o hyblygrwydd ar gyfer y PG a’r CHTh i gael y trafodaethau perthnasol gyda’r tîm cyllid i gymeradwyo’r rhestr arfaethedig.** | **Cwblhawyd** |
| **A88 2017/18** | **Yn amodol ar y ddau newid, roedd yr aelodau’n hapus i argymell y Polisïau Cyfrifyddu Drafft ar gyfer Datganiad o Gyfrifon 2018/19 y PG a’r CHTh.** | **Cwblhawyd** |
| **A91 2017/18** | **Roedd yr aelodau’n hapus i argymell y Strategaeth Gyfalaf a Chronfeydd Wrth Gefn sydd wedi’i chynnwys yng Nghynllun Ariannol Tymor Canolig 2019/20 - 2023/24 i’r PG a’r CHTh.** | **Cwblhawyd** |

| CAMAU GWEITHREDU’N CODI O GYFARFOD 7 Mawrth 2019 | | |
|---|---|---|
| Rhif y Cam Gweithredu | Crynodeb o’r Cam Gweithredu | I’w symud yn ei flaen gan |
| **A80 2017/18** | **Cywiro’r gwall teipio ar dudalen 10 o’r cofnodion fel y trafodwyd.** | **CB** |
| **A82 2017/18** | **Bwydo’r cwestiynau a’r pwyntiau sydd wedi codi drwy ddarllen Cynllun Archwilio Drafft Swyddfa Archwilio Cymru yn ôl i Swyddfa Archwilio Cymru.** | **PSA** |
| **A84 2017/18** | **SCHTh i rannu sleidiau cyflwyniad Arlingclose ymysg yr aelodau.** | **CB** |
| **A84 2017/18** | **Gwahodd Arlingclose i roi cyflwyniad yn y seminar cyllid fis Rhagfyr.** | **CB** |

| | | |
|---|---|---|
| **A86 2017/18** | **TIAA i weld pa un ai a oes modd iddynt rannu gwybodaeth am sefyllfa pob Heddlu o ran eu cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.** | **TIAA** |
| **A87 2017/18** | **TIAA i roi gwybodaeth bellach i'r Pwyllgor am gefndir SGH Associates.** | **TIAA** |
| **A88 2017/18** | **Bydd IW yn diwygio'r Polisïau Cyfrifyddu Drafft ar gyfer Datganiad o Gyfrifon 2018/19 yn unol â thrafodaethau.** | **IW** |
| **A90 2017/18** | **IW i ddiwygio amserlen y Cyfrifon Blynyddol er mwyn nodi y dylid anfon y ddogfen ddrafft at SCHTh ddiwedd Mai.** | **IW** |
| **A95 2017/18** | **Anfon gwahoddiad ar gyfer seminar mis Mehefin at KP.** | **CB** |
| **A96 2017/18** | **Diwygio rhagair MM o fewn Adroddiad Blynyddol 2018/19 y Cyd-bwyllgor Archwilio.** | **CB** |
| **A96 2017/18** | **Bydd y PS yn rhannu'r Adroddiad Blynyddol eto ar ôl i'r diwygiadau gael eu gwneud.** | **PS** |
| **A96 2017/18** | **CB i ofyn i aelodau Pwyllgor am ragor o wybodaeth am eu proffil a'u cefndir i'w chyhoeddi ar wefan CHTh.** | **CB** |
| **A97 2017/18** | **Y PS i ystyried sefyllfa gyfreithiol yr ymddiriedolaeth o ran ei gysylltiad â SCHTh.** | **SCHTh** |
| **A97 2017/18** | **Ychwanegu risg i'r gofrestr risg o ran y prosesau sydd mewn grym mewn perthynas â sgorio a chymeradwyo newidiadau i sgorau risg.** | **CC/ PM** |
| **A98 2017/18** | **Yr Aelodau i edrych ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac awgrymu sut y gellid ei ysgrifennu fel dogfen werthuso.** | **Yr Aelodau** |
| **A98 2017/18** | **Y PSA i weld pa un ai a yw'n bosibl trefnu gweithdy wedi'i hwyluso gyda CIPFA ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.** | **PSA** |
| **A99 2017/18** | **Newid geiriad un o'r meysydd gweithredu ar gyfer 19/20 o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol o fod yn barod ar gyfer gadael yr UE i oblygiadau gadael yr UE.** | **KP** |

| CAMAU GWEITHREDU O GYFARFODYDD BLAENOROL SYDD DAL YN MYND RHAGDDYNT | | |
|---|---|---|
| Rhif y Cam Gweithredu | Crynodeb o'r Cam Gweithredu | I'w symud yn ei flaen gan |
| **A38 2017/18** | **Adolygu'r Cylch Gorchwyl ar ôl i'r ddeddfwriaeth newydd ar Bwyllgorau Archwilio a dyletswyddau'r PSA gael eu cyhoeddi.** | **Dal yn mynd rhagddo** |
| **A60 2017/18** | **CF i gysylltu ag ardaloedd eraill yng Nghymru i ofyn am eu barn ynghylch rhannu eu canfyddiadau mewn perthynas â gweithredu Safonau'r Gymraeg mewn adroddiad cymharol.** | **Cwblhawyd** |